## ATODLEN 3

Rheoliad 4

## DATGANIAD O GYDYMFFURFIO

**1.**—(1) Rhaid i'r datganiad ysgrifenedig y cyfeirir ato yn rheoliad 4(1) gynnwys yr wybodaeth ganlynol—

(2) enw a chyfeiriad y cwmni a weithgynhyrchodd yr eitem geramig orffenedig ac (os yw'n gymwys) y mewnforiwr a'i mewnforiodd i'r Gymuned;

(3) dynodi'r eitem geramig neu'r eitemau ceramig;

(4) dyddiad y datganiad;

(5) cadarnhad bod yr eitem geramig neu'r eitemau ceramig yn bodloni'r gofynion perthnasol:

(a) yn y rheoliad hwn; neu

(b) yng Nghyfarwyddeb y Cyngor 84/500/EEC dyddiedig 15 Hydref 1984 ar gyd-ddynesiad cyfreithiau'r Aelod-wladwriaeth o ran eitemau ceramig y bwriedir iddynt ddod i gyffyrddiad â bwydydd(**1**) fel y'i diwygiwyd gan Gyfarwyddeb y Comisiwn 2005/31/EC dyddiedig 29 Ebrill 2005(**2**); ac

(c) yn Rheoliad (EC) Rhif 1935/2004 Senedd Ewrop a'r Cyngor dyddiedig 27 Hydref ar ddeunyddiau ac eitemau y bwriedir iddynt ddod i gyffyrddiad â bwyd ac sy'n diddymu Cyfarwyddebau 80/590/EEC a 92/65/EEC(**3**).

**2.** Bydd y datganiad ysgrifenedig yn caniatáu dynodi'n hawdd yr eitem y dyroddwyd ef ar ei chyfer neu'r eitemau y dyroddwyd ef ar eu cyfer a rhaid ei adnewyddu pan fydd newidiadau sylweddol yn y cynhyrchiant yn peri newidiadau ym mudiad plwm a chadmiwm.

(**1**) O.J. L277 ar 20.10.84 t.12.
(**2**) O.J. L110 ar 30.4.05 t.36.
(**3**) O.J. L338, 13/11/2004 t.4—14.